Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 3ydd Hydref 2023

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan Yr Is-gadeirydd a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol - Yr Is-gadeirydd Ynyr Parri ynghyd a'r Cynghorwyr, , Phyllis Ellis, Idris Thomas, Emma Chappell, Ellen George, Elwyn Jones, Sasha Williams, Gareth Hughes a Dawn Parry.

Dros y We: Elfed Wyn Williams

Ymddiheuriadau - Rhian Evans-Hill, Gareth Griffiths, Jane Pierce , Lowri Ann James a Berwyn Parry Jones

Datgan Buddiant - Pawb ynn datgan buddiant, wrth drafod cais ariannol sydd yn berthnasol iddynt.

Cofnodion 5ed Fedi 2023

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Idris Thomas (1) Elwyn Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Neuadd Rhiwlas - Mae'r tir bellach wedi ei gofrestru yn enw Cyngor Cymuned a'r dogfennau perthnasol wedi ein cyrraedd a'i gwblhau.

Meinciau- Mae mainc Bro Rhos a Chlwt y Bont bellach wedi eu hatgyweirio yn dilyn fandaliaeth eto.

Lôn Raca i Benisa'r-waun - Falch gweld fod yr arwyddion gyrru cyflymdra wedi eu gosod, gobeithio bydd pawb yn pwyllo wrth yrru ar y ffordd yma rŵan.

Datblygiad Stad gyferbyn a Cremlyn - Bu i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at y datblygwyr, gan ofyn yn union beth oedd yr ardal yn cael yn fuddion cymunedol. Mewn ymateb i hyn, cafwyd eglurhad, fod y Cyngor Sir wedi cynghori i'r datblygwyr mewn trafodaethau cyn cyflwyno'r cais fod ffigwr o £123,028.50, os byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu yn mynd tuag at wella cyfleusterau Addysg Uwchradd. Dyma yw un o'r pryderon gan y Cyngor Cymuned, sydd wedi ei amlygu yn gryf fel sylwadau ar y cais, fod Y Cyngor Sir yn anwybyddu Gwarchod yr Ysgol Gynradd ym Methel. Ydi mai yn wir fod yna ychydig lefydd ar hyn o bryd yn yr Ysgol, ond nid yw'r Data yma yn cymryd i sylw yn lle yn yr Ysgol y mae'r seddi gwag. Hy efallai fod yna un Dosbarth blwyddyn a niferoedd yn isel tra bod sawl dosbarth arall a niferoedd yn orlawn yn barod. Yn ychwanegol i'r swm yma mae'r ymgeiswyr yn barod i gyfrannu £5254.49 at wella mannau agored/maes chwarae'r plant. Bydd rhaid trafod hyn yn fanwl gydag Adref, os bydd y cynllun yn cael ei ganiatáu.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Diffib Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr yn nodi fod diffibrydd Rhiwlas wedi ei fandaleiddio, ac nad oes posib ei ddefnyddio bellach. A chais ynghyd yn gofyn a oedd posib i allu cynnwys y Diffriblydd ar yswiriant Y Cyngor. Gan nad Y cyngor Cymuned sydd yn berchen yr offer, nid oedd hyn yn bosib. Mae'r clerc am holi os oes yswiriant penodol are u cyfer gan asiantaethau sydd yn gofalu am diffrybyddion. Fodd bynnag, cytunwyd i gefnogi yn ariannol tuag at un Newydd.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C23/0718/18/LL - Rhiw Goch, Clwt y Bont

Cais i osod 7 sialau gwyliau - Mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu hyn yn llwyr, gan fod y safle wedi cael ei glustnodi ar gyfer datblygu tai sydd wir ei angen i bobl leol ac nid yw'r safle yma yn addas ar gyfer gosod sialau gwyliau.

C23/0713/18/DT - Minffordd, Penisa'r-waun

Cais i osod balcony arfaethedig ac estyniad i'r cwrtil domestig - Dim Gwrthwynebiad

C23/0677/18/DT - Tŷ Hen, Penisa'r-waun

Cais i ddymchwel modurdy ac ymestyn gardd domestic i gae amaethyddol gyferbyn gan gynnwys gosod llain galed ar gyfer parcio, adeiladu sied, codi adeilad gardd, creu pwll bywyd gwyllt a Gwaith tirlunio. Dim Gwrthwynebiad

C23/0746/18/LL - Maes Carafanau Rhyd y Galen

Cais i mewn llenwi arfaethedig o ochrau'r sied cynnal a chadw presennol i greu storfa beiriannau dan do, derbynfa a swyddfa, ynghyd ag amnewid y garafán sefydlog bresennol, gydag estyniad i'r sied gynnal a chadw presennol i ddarparu llety rheolaeth I Warden y parc. - Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Cae Corniog I lawr am Gors Brynrefail - Gordyfiant ger y giât yma, a dim digon o arwyddion yn dangos lle yn union mae'r llwybr yn mynd.

Giât drydan ar Lwybr rhif 22 - Nid oes un dim wedi ei wneud byth ynglŷn â'r giât anghyfreithlon yma. Rydym ers dros 2 flynedd bellach yn cysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn datrys y broblem. Cysylltu eto a'r Cyngor

Sefyllfa Ariannol

Cyflwynodd y clerc mantolen ariannol o'r flwyddyn hyd yma, ynghyd a'r holl dderbyniadau a'r gwariant. Roedd pawb yn hapus fod y cyfrifon yn hollol gywir, ac ein bod ar hyn o bryd yn cadw o fewn ein cyllideb.

Fel nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, derbyniwyd rhodd gan deulu ein cyn clerc Mr J B Jones. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd prynu main Er Cof am John, a'i gosod yn Dinorwig ar safle ger Cof Golofn y chwarelwyr. Y clerc i drefnu gyda Menter Fachwen.

Ceisiadau Ariannol

Derbyniwyd 17 o geisiadau Ariannol eleni. Trafodwyd pob un yn ei dro. Un peth sydd yn codi yn flynyddol ydi, bod wir angen Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei ardystio gyda'r cais. Mae hyn yn rhan o reolau'r Cyngor Cymuned. Mae yn rhaid i'r cyngor dystio, pe bai gofyn ar ran awdit, ein bod gyda'r dogfennau yma wedi eu cyflwyno gan y mudiadau. Bydd y Cyngor yn ail edrych ar y rheolau ceisiadau nawdd yn ystod y flwyddyn hon ar gyfer y flwyddyn 2024/2025.

Penderfynwyd cefnogi 15 cais. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd yn unfrydol ein bod yn rhoi £300 i bob un o'r 15 cais

Emma Chappell (1) Gareth Hughes (2)

Dyma'r 15 cais:

Clwb Snwcer Deiniolen ; Eisteddfod Bethel ; Seindorf Arian Deiniolen; Neuadd Rhiwlas Cyfeillion Rhiwlas ; Clwb Rhiwen; Diffib Rhiwlas; Clwb Crefft Rhiwlas;

Pwyllgor Pentra Deiniolen; Clwb Pêl Droed Bethel; Clwb Ti a Fi Bethel;

Clwb Bowlio Dan Do Bethel; Clwb Snwcer Bethel; Clwb Bro Bethel; Neuadd Penisa'r-waun

O Gwmpas y Bwrdd

Pafin Bethel - Bu I oedolyn oedrannus gael damwain a disgyn ar bafin anwastad, dros ffordd i'r gysgodfa'n Bws yn waelod Bethel. Lwcus fod rhywun gerllaw yn gweld yr holl beth yn digwydd a rhuthro drosodd i'w help. Byddwn yn gyrru i'r Cyngor Sir I gael gweithiwr yno i'w drin a sicrhau fod y pafin yn cael ei wneud yn ddiogel.

Tyfiant Ymyl ffyrdd - Mae sawl ardal ym Methel gyda gordyfiant ger ymyl y ffyrdd a'r palmentydd. Mae hyn yn rhwystr i ddŵr fynd i lawr y draeniau ac yn tanseilio'r palmentydd.

Maes Eilian Dinorwig - cais i wneud ar hyd y ffordd yma yn 20 m.y.a.. Mae yn ardal lle mae llawer o blant a phobl yn gorfod mynd ar y lôn sydd eisoes yn gul.

Bro Elidir, Dinorwig - Mae llain o dir yn ardal y Tai yma yn Dinorwig, sydd wir angen ei dacluso a'i docio yn ôl. Rydym yn credu mai Adra sydd yn gyfrifol am hyn.

Rhiwlas - Diolch I'r criw ffyddlon sydd wedi bod o amgylch yn hel sbwriel a thacluso'r pentref.

Penisa'r-waun - Diolch I'r criw sydd wedi bod yn plannu bylbiau ac ati yn y potiau ar ochor y palmentydd. Edrychwn ymlaen at weld y pentref yn llawn o liwiau hardd yn y Gwanwyn.

Cadarnhau Taliadau:

651 - £305.00	**652 - £3193**	**654 - £300**	**655 - £300**	**656 - £300**	**657 - £300**
658 - £300	**659 - £300**	**660 - £300**	**661 - £300**	**662 - £300**	**663 - £300**
664 - £300	**665 - £300**	**666 - £300**	**667 - £300**		